



Department for Levelling Up,
Housing & Communities



UK Government
Llywodraeth y DU



Disgrifiad Swydd – Swyddog Prosiect – Cysylltu Athrawon â Diwydiant

- Swyddi gwag:** 2 x swydd lawn amser ar gael i ddarparu prosiectau yn awdurdodau Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf
- Yn atebol i:** Prif Swyddog Gweithredol STEM Cymru
- Tiriogaeth/
Rhanbarth:** Ardaloedd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf
- Lleoliad:** Gartref
- Oriau:** Llawn amser 37.5 awr y dydd (fel arfer rhwng 8.30 – 4.30pm, ond bydd angen gweithio ambell noswaith, yn dibynnu ar amseroedd digwyddiadau a gynhelir ar ôl ysgol).
- Dyddiad
Cychwyn:** Cyn gynted â phosibl
- Hyd contract:** Contract tymor penodol hyd 30 Mehefin 2022 yn gweithio ar y prosiect uchod
- Cyflwg:** cyfwerth â £32,000-£35,000 pro rata (a chostau teithio) yn dibynnu ar brofiad
- Diben y contract:** Gweithio gyda thîm rheoli STEM Cymru, a thîm o Swyddogion Prosiect sydd newydd eu penodi i ddatblygu, gweithredu a darparu'n llwyddiannus y prosiect peilot ar gyfer ardaloedd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf a gyllidir gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Disgrifiad o'r Prosiect:

Bydd y Prosiect Cysylltu Athrawon â Diwydiant yn creu a darparu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer gweithwyr addysgu proffesiynol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd digwyddiadau yn cyflwyno athrawon i gyffro a rhyfeddodau gweithgynhyrchu a pheirianneg a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gyrfaoedd arloesol a gwerth chweil amrywiol sydd ar gael yn y sectorau Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Creadigol a Digidol ac Ynni a'r Amgylchedd yn y rhanbarth.

Bydd y prosiect hefyd yn rhoi'r cyfle i athrawon gael siaradwyr gwadd i ymweld â'u hysgolion i siarad mewn gwasanaethau disgyblion, diwrnodau allgyrsiol neu ddigwyddiadau gyrfaoedd eraill.

Manyleb Person:



Department for Levelling Up,
Housing & Communities



UK Government
Llywodraeth y DU



Byddai'r swydd hon yn ddelfrydol ar gyfer ymgeisydd sy'n chwilio am swydd tymor byr gyda chefnidir mewn diwydiant neu addysg. Bydd diddordeb neu brofiad o weithio gydag ysgolion, ymgysylltu â'r cyhoedd neu drefnu digwyddiadau yn fuddiol hefyd.

Efallai fod ymgeiswyr eisiau seibiant o'u rôl bresennol mewn diwydiant neu'n ystyried ymddeol o addysgu. Byddai'r contract yn addas hefyd ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn cyfnod sabothol neu secondiad.

Prif feysydd cyfrifoldeb ac atebolrwydd:

- Trefnu, datblygu a rheoli gwaith y prosiect uchod
- Gweithio dan Brif Swyddog Gweithredol a thîm rheoli prosiect STEM Cymru
- Cadw cofnodion o holl weithgareddau a gwybodaeth am brosiectau, adborth, a rheoli gofynion GDPR
- Darparu data i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cydlynnydd Prosiectau
- Rheoli amserlen y prosiect, gweithio i amserlenni, a rheoli amser unrhyw gydweithwyr
- Nodi anghenion athrawon mewn addysg a chefnogi ysgolion yn rheolaidd
- Cyfathrebu â chwmnïau i gadarnhau prif siaradwyr
- Datblygu cysylltiadau â diwydiant a chreu digwyddiadau prosiect addas ar gyfer athrawon o fewn cwrpas y prosiect
- Caffael unrhyw ddefnyddiau traul sy'n angenrheidiol er mwyn darparu a datblygu adnoddau perthnasol
- Recriwtio ysgolion a chwmnïau a chadarnhau sesiynau darparu gydag ysgolion yn yr ardal
- Darparu'r rhaglen beilot mewn ysgolion o fewn yr ardal ddynodedig yn llwyddiannus
- Trefnu a rheoli gweithdai, digwyddiadau, sesiynau darparu a gweithgareddau
- Rheoli a gweithio gyda'r Swyddog Cymorth Prosiect i sicrhau bod cynrychiolwyr yn cofrestru
- Rheoli pob agwedd ar iechyd a diogelwch y prosiect, gan gynnwys asesiadau risg a champau gweithredu
- Cynnal a rheoli cysylltiadau ysgolion/ diwydiant drwy'r cyfnod peilot
- Sicrhau bod y prosiect peilot yn cael ei ddarparu o fewn yr amserlenni a bod dangosyddion perfformiad allweddol targed yn cael ei gyrraedd
- Mynychu cyfarfodydd grŵp rheolwyr
- Adrodd yn rheolaidd i'r Prif Swyddog Gweithredol
- Unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol gan y tîm rheoli prosiect

Sgiliau a Phrofiad Hanfodol

- Profiad o weithio yn y byd addysg a/neu ddiwydiant a chysylltu â'r sectorau hyn
- Profiad o reoli/arwain prosiect
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a gallu amlwg i gyfathrebu ag uwch reolwyr mewn addysg, diwydiant a chyrrff proffesiynol
- Profiad o/ gallu amlwg i ddatblygu a darparu cyflwyniadau proffesiynol i gynulleidfa o hyd at 100 o bobl



Department for Levelling Up,
Housing & Communities



UK Government
Llywodraeth y DU



- Hunangymhelliant a'r gallu i weithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun
- Ymrwymiad i helpu i dywys pobl ifanc i yrfaoedd STEM
- Sgiliau gweinyddu cyffredinol
- Trafnidiaeth eich hun

Sgiliau a Phrofiad Dymunol

- Profiad o drefnu digwyddiadau a siaradwyr
- Gradd berthnasol
- Cysylltiadau mewn diwydiant a/neu addysg
- Profiad o ddigwyddiadau neu allgymorth ysgolion
- Gwybodaeth am y cwricwlwm presennol a Chwricwlwm i Gymru 2022
- Siarad Cymraeg